**Cyfarfod Cyntaf**

# Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau Cymru

**Cofnodion y cyfarfod cyntaf**
**a gynhaliwyd yn Ystafell Gynadleddau, Canolfan Technium, Aberystwyth**
**10 Mawrth 2009 10:15am tan 3:00pm**

**Yn bresennol:**

| | |
|---|---|
| Stephen Bladwell (Cadeirydd) | |
| Adrian Fowles | CCGC (Infertebrata) |
| Andy Jones | CCGC (Planhigion Fasgwlaidd) |
| Craig MacAdam | Buglife |
| Derek Moore OBE | Cymdeithas Adaregol Cymru |
| Kate Williamson | Grŵp Mamaliaid Eryri, Partneriaeth Bioamrywiaeth Cymru |
| Ray Woods | Plantlife |
| Reg Thorpe | RSPB |
| Rob Strachan | Asiantaeth yr Amgylchedd Cymru |
| Russell Hobson | Gwarchod Gloynnod Byw |
| Sian Whitehead | CCGC (Adar) |
| Steve Chambers | Adran Materion Gwledig |
| Steve Lucas | Ymddiriedolaeth Gwarchod Ystlumod |
| Tammy Stretton | Ymddiriedolaethau Natur Cymru |
| Trevor Dines | Plantlife |

**Ymddiheuriadau:**

| | |
|---|---|
| Geoff Liles | Grŵp Mamaliaid Cymru |
| Jerry Lewis | Cyngor Sir Fynwy/Grŵp Gweithredu Bioamrywiaeth Gwent Fwyaf |
| Liz Halliwell | CCGC (Mamaliaid) |
| Liz Howe | CCGC (Ymlusgiaid ac Amffibiaid) |
| Matthew Ellis | CCGC |
| Pete Jennings | Dŵr Cymru |

**Cofnodion:**

| | |
|---|---|
| 1. Cyflwyniad | SB – Prif rôl Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau Cymru yw darparu cefnogaeth ac arweiniad i'r grwpiau ecosystemau amrywiol. |
| 2. Cadarnhau aelodaeth | SB – dim cynrychiolaeth forol gan y bydd y grŵp ecosystemau morol yn ymdrin â rhywogaethau morol.<br>RS – gall ymdrin â physgod ar ran Asiantaeth yr Amgylchedd.<br>TD – awgrymodd y gallai Sam Bosanquet ac Alan Hale ymdrin |

| | |
|---|---|
| | â phlanhigion isel.<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 1 TD/SB** |
| 3. Adolygu cefndir | SB – mae'r grŵp hwn yn deillio o'r adolygiad diwethaf o Gynllun Gweithredu'r DU ar Fioamrywiaeth a gwblhawyd yn 2007 sy'n datganoli mwy o gyfrifoldeb dros gyflawni i bob un o'r rhanbarthau. Gweler dolenni cyswllt 1 a 2 ar yr agenda. Bydd y strwythur newydd yn cael ei gyfuno â Fframwaith Bioamrywiaeth Cymru a Strategaeth Amgylcheddol Cymru. |
| 4. Adolygu cylch gwaith y Grŵp | Gweler Dolen Gyswllt 1, tudalen 9<br><br>1. *Dod â chyngor perthnasol ynglŷn â rheoli cynefinoedd rhywogaethau at ei gilydd a sicrhau bod y cyngor ar gael ar wefan PBC, nodi bylchau a llunio canllawiau/cyngor ar gyfer rhywogaethau lle bo angen.*<br><br>Holodd y grŵp beth yn union roedd hyn yn ei olygu gan y gallai olygu llawer iawn o waith. Cytunwyd bod angen ymchwilio i hyn.<br><br>2. *Datblygu rhestr o bwyntiau gweithredu sydd i gael blaenoriaeth (yn ymwneud â safleoedd penodol) y dylai Grwpiau Ecosystemau ac Arweinwyr Rhywogaethau eu gweithredu.*<br><br>Teimlai'r grŵp fod hyn yn y lle cyntaf yn rôl i'r Partneriaid Arweiniol (lle maent yn bodoli), a bod llawer ohonynt eisoes yn gweithio er mwyn llunio camau gweithredu. Angen adolygu ar ôl i'r gwaith hwn gael ei gwblhau.<br><br>3. *Llunio rhestr yn flynyddol o'r deg prif bwynt gweithredu ar gyfer rhywogaethau lle mae angen gweithredu ar frys. Byddai hon yn rhaglen dreigl o weithrediadau. Mae'n bosibl na fydd gan aelodau'r grŵp hwn yr hawl i weithredu.*<br><br>Mae'r grŵp yn teimlo'n anesmwyth ynglŷn â chynnwys niferoedd, ond roeddent yn cydnabod bod hyn yn ddymunol ar gyfer rhai sefydliadau. Teimlai'r Grŵp yn y lle cyntaf y byddai'n ddoeth rhestru'r rhywogaethau hynny sy'n wynebu'r bygythiad mwyaf o gael eu difodi pe na bai dim yn cael ei wneud yn y dyfodol agos, ac y gallai rhywogaethau nad oes angen gweithredu ar unwaith yn eu cylch aros am ychydig.<br><br>Pawb i edrych ar eu rhywogaethau ac i nodi'r rhai hynny sy'n galw am weithredu ar fwyaf o frys.<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 2 PAWB erbyn 10 Ebrill** |

| | |
|---|---|
| | *4. Canfod bylchau mewn gwybodaeth a sgiliau, a naill ai rhoi sylw uniongyrchol i'r rhain neu argymell i PBC sut y gellid eu llenwi.*<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 3 PAWB i anfon syniadau at SB.**<br><br>*5. Canfod polisïau sy'n achosi rhwystr, a helpu, drwy anfon sylwadau i'r Grŵp Polisi, i ysgogi'r gwaith o ddatblygu polisi a monitro canlyniadau.*<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 4 PAWB i anfon syniadau at SB**<br><br>*6. Darparu sylwadau i unrhyw grŵp rhywogaethau cyffredinol yn y DU a sefydlir gan Bwyllgor Sefydlog ar Fioamrywiaeth y DU.*<br><br>Mae Liz Howe yn cynrychioli Cymru yng nghyfarfodydd y Deyrnas Unedig ac mae angen datblygu system er mwyn sicrhau cyfathrebu effeithiol y ddwy ffordd.<br><br>*7. Helpu i ddatrys unrhyw wrthdaro posibl rhwng anghenion rheoli cynefinoedd rhywogaethau fel y maent yn codi.*<br><br>Teimlai'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau Cymru fod angen edrych ar integreiddio rhwng y grwpiau ecosystemau a'r Grŵp er mwyn sicrhau bod y gwaith yn cael ei flaenoriaethu'n briodol.<br><br>*8. Cysylltu â Phartneriaid Arweiniol rhywogaethau i ddibenion adrodd.*<br><br>Teimlai'r Grŵp mai'r Partneriaid Arweiniol ddylai fod yn gyfrifol am adrodd drwy'r system BARS – nid yw'r gallu gan y Grŵp i ymgymryd ag unrhyw waith adrodd uniongyrchol. Serch hynny, gallai'r grŵp gynnig cefnogaeth a chyfarwyddyd ynglŷn â grwpiau ecosystemau.<br><br>Cyffredinol – roedd angen ailddrafftio rhywfaint o'r cylch gorchwyl.<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 5 SB** |
| 5 Strwythur a rhaglenni gwaith ar gyfer y dyfodol | Ni ellir ystyried hyn nes bydd y Cylch Gorchwyl wedi'i ailddrafftio. |
| 6 Y Prif Dasgau | **Cyfeirio Rhywogaethau** |

Y dasg gyntaf yw edrych ar y rhestr newydd a nodi targedau a phwyntiau gweithredu allweddol. Mae templed wedi'i baratoi ond gan nad oedd pawb wedi'i weld ni allai'r Grŵp wneud sylwadau eto. Serch hynny, cyn y gellid llenwi'r templed â gwybodaeth teimlai'r Grŵp unwaith eto fod angen nodi Partneriaid Arweiniol a blaenoriaethu rhywogaethau ar gyfer ysgrifennu pwyntiau gweithredu a thargedau (gweler 4.3).

Dylid nodi Partneriaid Arweiniol yng Nghymru os yw hynny'n bosibl ond cydnabyddir y byddai Partner Arweiniol ar lefel y DU yn fwy priodol mewn rhai achosion. Bu'r Grŵp yn meddwl tybed a fyddai'n bosibl dod o hyd i Bartneriaid Arweiniol mewn Prifysgolion, ac os oedd Llywodraeth Cynulliad Cymru'n ariannu Prifysgolion yna efallai y gellid gwneud rôl Partner Arweiniol yn un o amodau dyfarnu grant.

Mae rhai Partneriaid Arweiniol ar y blaen i eraill gyda Phwyntiau Gweithredu a Thargedau. Nododd grwpiau amrywiol bod angen sicrhau bod rhywfaint o adnoddau ar gael er mwyn nodi pwyntiau gweithredu a thargedau ar gyfer rhai rhywogaethau sydd heb lawer o arbenigwyr. Mae angen egluro rôl Partneriaid Arweiniol ar frys.

**PWYNT GWEITHREDU 6 SB i egluro rôl Partneriaid Arweiniol a holi Grŵp Llywio PBC ynglŷn ag anghenion ariannu.**

Mae'r RPSB eisoes wedi mynd drwy'r broses hon o flaenoriaethu a bydd yn cylchredeg ei meini prawf ar gyfer dethol rhywogaethau.

**PWYNT GWEITHREDU 7 RSPB**

Mae Targedau a Chynlluniau Gweithredu ar gyfer mamaliaid wedi eu drafftio'n barod a byddant yn cael eu dosbarthu i'r partneriaid allweddol cyn bo hir. Lle mae Targedau a Phwyntiau Gweithredu wedi'u drafftio'n barod yna dylai hyn symud yn ei flaen.

**Arweiniad ar Rywogaethau**

Mae cais wedi cael ei wneud gan Amgueddfa Genedlaethol Cymru drwy'r ganolfan/canolfannau cofnodion lleol am arweiniad ar daflenni gwybodaeth blaenoriaethu rhywogaethau. Gofynnodd y Grŵp a oedd hyn yn ddefnydd da o adnoddau a hefyd pam na ofynnwyd i sefydliadau arbenigol lunio'r rhain. Cynigiodd Trevor Dines y byddai'n cysylltu â Diana Reynolds ynglŷn â'r mater hwn.

**PWYNT GWEITHREDU 8 TD**

| | |
|---|---|
| 7 Camau sydd i gael blaenoriaeth gan grwpiau ecosystemau | Heb ei drafod |
| 8 Cyfathrebu | Mae'r Grŵp Polisi wedi cael un cyfarfod hyd yn hyn.<br><br>Mae aelodau amrywiol o'r Grŵp Arbenigol sydd ar grwpiau ecosystemau yn mynychu rhai o'r grwpiau a gallant gynnig adborth. Bydd yr holl gofnodion i'w gweld ar wefan PBC.<br><br>Mae angen datblygu tabl er mwyn nodi'r cysylltiadau presennol â grwpiau ecosystemau drwy aelodau'r Grŵp Arbenigol ar Rywogaethau a nodi unrhyw fylchau.<br><br>**PWYNT GWEITHREDU 9 SB.** |
| 9 Cyfarfodydd y dyfodol | Mae angen i'r cyfarfod nesaf fod yn gyfarfod wyneb yn wyneb. Dyddiad 10 Mehefin 2009. |

**Pwyntiau Gweithredu:**

| | |
|---|---|
| Pwynt Gweithredu 1 | TD i anfon manylion ynglŷn â sut i gysylltu â Sam Bosanquet ac Alan Hale at SB. SB i'w gwahodd i'r cyfarfod nesaf |
| Pwynt Gweithredu 2 | Pawb i nodi rhywogaethau y mae angen gweithredu mewn cysylltiad â hwy ar unwaith ac anfon y rhestr at SB erbyn 10 Ebrill |
| Pwynt Gweithredu 3 | Pawb i ystyried syniadau ar gyfer llenwi bylchau gwybodaeth a sgiliau |
| Pwynt Gweithredu 4 | Pawb i ystyried rhwystrau mewn polisïau ac anfon ymateb at SB |
| Pwynt Gweithredu 5 | SB i ailddrafftio'r Cylch Gorchwyl |
| Pwynt Gweithredu 6 | SB i egluro rolau Partneriaid Arweiniol |
| Pwynt Gweithredu 7 | RSPB i gylchredeg eu meini prawf ar gyfer dethol rhywogaethau |
| Pwynt Gweithredu 8 | TD i siarad â Diana Reynolds ynglŷn â pharatoi taflenni gwybodaeth am rywogaethau |
| Pwynt Gweithredu 9 | SB i ddatblygu tabl yn nodi cysylltiadau â grwpiau ecosystemau. |

SL, RH, SB Mawrth 2009